**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun 5 Hydref 2020 arlein, trwy zoom am 8 o'r gloch**
***Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday, 5 October 2020, online through Zoom at 8pm***

Yn absenoldeb y Cadeirydd, croesawodd yr is-gadeirydd pawb i'r cyfarfod misol a diolchwyd i bawb am ymgynnill ar lein yn ystod yr amser anodd yma.

**Presennol/*Present***
Cyng Daniel Thomas (Gadair/*Chair*), Dafydd Morse, Rhian Turner, Beryl Evans, Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Eirian Jones a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans.

**Ymddiheuriadau/*Apologies*** – Cyng/*Cllr* Gwenfair Owen, John Evans a Cyng/*Cllr* Emyr Jones.

**Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*** – Neb / *No one*

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting***
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn unfrydol.

**Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes***

- Gwaith atgyweirio wedi'u orffen ar y milwr gan Kieran Elliott, derbyniwyd infois am y gwaith o £3,413.73, ynghyd ag adroddiad llawn o'r gwaith a wnaed ar y milwr. Gofynnodd Kieran Elliott i ni beidio a glanhau'r milwr yn enwedig efo 'pressure washer' o hyn allan oherwydd y niwed a wnaed i'r milwr. Gofynnir i'r clerc gysylltu efo cwmni John Williams (Crwbin Quarries) i ddod allan i wneud y gwaith oddi amgylch y milwr gan gadw lle oddi amgylch y pwmp dwr yn glir o flaen yr ywen. Soniwyd bod tyfiant y goeden ywen siwr o fod yn achosi difrod i'r milwr. Clerc i dderbyn Cyngor arbenigwr am trimio'r goeden nôl ychydig. Gofynnir i'r Cyng Rhodri Evans i ymchwilio mewn i hanes y goeden Ywen ar y cylchfan ac ynghlyn ag oes gorchymyn cadw arni.

**Gohebiaeth/*Correspondence***

- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Barbara Horsefall-Turner am gwasanaeth y fferyllfa yn Dregaron. Soniwyd nad oedd y gwasanaeth yn mynd i orffen yn y dyfodol agos.
- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Barbara Horsefall-Turner am ddodi bwmps yn y ffordd o'r sgwar draw am yr Ysgol i arafu traffig lawr. Trafodwyd y mater a chefnogwyd y syniad o ddodi goleuadau Ysgol yn fflachio ar y ffordd. Cyngorydd Rhodri Evans i edrych mewn i'r mater.

- Trafodwyd y posibilrwydd o brynnu'r blwch ffôn Rhydypandy, soniwyd bod y dyddiad cau ar gyfer eu prynu wedi pasio ond byddai'r Cynghorydd Sir yn trosglwyddo'r manylion cyswllt ymlaen i'r Clerc gan fod diddordeb wedi'u ddangos i brynu'r blwch yma.

**Cyfrifon/*Accounts***

- Cyflog y clerc (mis Gorffennaf – Medi 2020) £319.08
- Kieran Elliott £3413.73

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r uchod.

**Cyngor Sir Ceredigion *County Council***
Soniodd y Cynghorydd Sir bod e'n mynychu cyfarfodydd dyddiol a drefnwyd gan y Cyngor Sir i ymwneud a Covid-19.

**Un Llais Cymru/*One Voice Wales***
Dim i'w adrodd.

**Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business***

- Soniodd Cyng Gwilym Evans bod yna broblem ym Mhenuwch lle bod loriau a cherbydau mawr yn mynd lawr ffordd sy'n gil iawn a gofynnir i Cyng Rhodri Evans i edrych mewn i'r posibilrwydd o ddodi arwydd ar ben lôn y ffordd gil i hadael traffic mawr fynd lawr.
- Soniwyd nad oedd y biniau sbwriel yn cael eu casglu'r gyson iawn yn ddiweddar.
- Gan fod y ffordd lawr Heol Meidrym wedi cael ei tharmacio nifer o weithiau soniwyd bod uchder y palmant yn cael ei golli bellach.
- Dwr yn cronni ar y ffordd oddi amgylch Felin Fawr ac ar bwys Garej bysiau James.
- Angen i'r sweeper ddod oddi amgylch y gymuned i godi'r dail sydd wedi cwympo.
- Angen hysbysu'r Cyngor Sir i dorri'r cloddiau yn gynharach yn 2021.
- Arwydd Ffordd sy'n dangos graddiant y ffordd wedi cael niwed a torri bant ar dop y ffordd sy'n mynd lawr rhiw Gaerlwyd am Tyncelyn, angen rhoi un newydd yno.
- Transh o dan y ffordd ar bwys Cilrhug wedi blocio angen sylw.
- Cyng Myrddin James wedi newid cloion y banc boteli yn y pentref.
- Soniwyd nad oed y Cyngor Cymuned wedi dosbarthu unrhyw arian am eleni oherwydd yr amgylchiadau presennol, ond cytunwyd ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse i dosbarthu £200 yr un i bob un o'r Eglwysi a'r Capeli yn y gymuned, tuag at y costau o dorri'r mynwentydd.

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date & location of next meeting***

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 2ail o Tachwedd 2020 arlein trwy Zoom am 8 o'r gloch.